Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gyfeillgar, gynhwysol a Chymreig yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd gwaith hynod gadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr awyrgylch ddysgu barchus a threfnus. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gryfder nodedig ac mae eu hymddygiad yn rhagorol.

Nodwedd gref o'r ysgol yw natur hapus a chyfeillgar y disgyblion. Maent yn feddylgar at eraill, yn sgwrsio'n gwbl naturiol â'i gilydd ac oedolion yn Gymraeg ac yn dangos diddordeb a chwilfrydedd yn y byd o'u cwmpas. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u treftadaeth leol. Maent yn dangos balchder yn llwyddiannau cerddorol yr ysgol, er enghraifft wrth lwyddo mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm creadigol, eang a chytbwys i'r disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog a gweithgareddau diddorol sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol. Maent yn darparu profiadau dysgu  ysgogol sy'n cymell disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae tueddiad i leiafrif o staff or-arwain y gweithgareddau sydd yn ei dro yn cyfyngu ar gyfleoedd i leiafrif o ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr mwyfwy annibynnol.

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion. Mae'r pennaeth brwdfrydig wedi creu amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n sicrhau ymdeimlad cryf o waith tîm. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gefnogol i wella'r ddarpariaeth. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn canolbwyntio'n ddigon bwriadus bob tro ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion.

# Argymhellion

**A1 Rhannu'r arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol**

**A2 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n fwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 469 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 344 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 63 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn  y sector Cynradd yw 23.7%) | 5.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 2.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 52.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/01/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/05/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/07/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.